Rhifyn Nadolig ARBENNIG 50 — 23/12/2021

# Diweddariad BIP CTM ynghylch brechu rhag COVID-19

## Cyfarchion y Tymor




Rhoddwyd y brechiad COVID-19 cyntaf yn CTM ar 7 Rhagfyr y llynedd ac am flwyddyn mae wedi bod ers hynny! Yr wythnos hon, byddwn yn gweld carreg filltir arwyddocaol pan gyrhaeddwn 1 miliwn o ddosau brechlyn yn CTM - fyddai neb ohonom wedi disgwyl y nifer hwnnw pan aethom ati yn dechrau.

Gyda'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ar ein gwarthaf, mae'n amser i fyfyrio ar y gwaith sydd wedi ei wneud i roi'r brechlynnau — mae wedi gofyn am waith tîm ymroddedig, awydd i ddysgu a gwella'n barhaus ac yn anad dim caredigrwydd hefyd. Mae'r cyhoedd wedi bod yn amyneddgar mewn ciwiau ac yn hael gyda chanmoliaeth ac anrhegion. Mae timau o bob maes gan gynnwys porthorion, gwirfoddolwyr, gyrwyr, fferylliaeth, canolfannau hamdden, gweinyddu, canolfannau galwadau, y gweithlu, nyrsio, cyfleusterau, cynllunio a gwybodaeth oll wedi dod at ei gilydd. Maent wedi ateb pob her ac wedi ymateb i bob cyhoeddiad newydd. Yn wyneb tasg na welwyd erioed ei thebyg, dydyn ni ddim bob amser wedi gwneud pethau'n iawn, ond rydym bob amser wedi dysgu a gwella. Mae hynny wedi ein galluogi i roi dosau atgyfnerthu dair gwaith yn gyflymach nag unrhyw beth arall rydym wedi'i wneud o'r blaen, sy'n gyflawniad enfawr o fewn dim ond 5 diwrnod.

Rydym i gyd yn gobeithio y bydd 2022 yn ychydig yn fwy tawel ac y gallwn frwydro yn erbyn y gwaethaf y gall Omicron neu unrhyw amrywiad arall ei daflu atom ni, un pigiad ar y tro.

Diolch am eich cefnogaeth ddi-ball i raglen waith mor hanfodol — heboch chi, ni allem fod wedi cyflawni hyn.

Clare Williams

Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Phartneriaethau, a'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Brechu COVID-19 yn CTM

## DIWEDDARIAD AR Y DOS ATGYFNERTHU



Mae ein rhaglen dosau atgyfnerthu wedi cyrraedd y fath ruthr fel ein bod wedi rhoi **221,183 o frechiadau atgyfnerthu** erbyn cyhoeddi hyn o ddatganiad, sef dwy ran o dair o'n poblogaeth gymwys. Yn bwysig, mae hyn yn golygu bod 57% o'r holl breswylwyr CTM dros 16 oed wedi cael y dos atgyfnerthu a phob dydd mae mwy o bobl yn dod yn gymwys. Pan fydd hynny’n digwydd, byddwn yn eu brechu nhw hefyd. Mae hyn yn cynnwys y cyhoeddiad ddoe gan y Cyd-bwyllgor Brechu ac Imiwneiddio (JCIV) y byddai pob plentyn 16 ac 17 oed yn gallu cael y dos atgyfnerthu 3 mis ar ôl cael yr ail ddos.

Mae'r cynnydd enfawr hwn mewn dim ond wythnos wedi profi pob un ohonom. Rydym wir yn gwerthfawrogi amynedd y cyhoedd gan fod ein timau brechu anhygoel wedi ymateb yn gyflym i gyflawni hyn yn ddiogel.

Rydym wedi anfon yr olaf o'n gwahoddiadau ar gyfer y dosau atgyfnerthu hyd at 31 Rhagfyr, felly cadwch lygad am neges destun a/neu lythyr. Rydym wedi gweld bod nifer o bobl yn meddwl bod ein negeseuon testun yn sgamiau. Y rhif ffôn fydd yn anfon y neges destun yw 07984405179 (nodwch nad yw'n derbyn atebion).

Wrth i'r tywydd oeri, rydym yn gofyn i bobl lapio'n gynnes pan ddewch chi i gael eich brechiad. Gwisgwch haenau fel y gallwn gyrraedd y fraich uchaf yn hawdd.

### TYFU #TîmBrechuCTM

Mae brechu dair gwaith yn gyflymach wedi gofyn am bron i dair gwaith y nifer o staff brechu. Mae'r rhai sydd eisoes yn rhan o'r tîm wedi gweithio oriau ychwanegol ac ymatebodd staff eraill i'n 'galwad i’r frwydr'. Fe wnaethon ni hyfforddi cannodd yn fwy o bobl a diolch i bawb sydd bellach yn rhan o dîm sy'n tyfu. Bob dydd, mae'r aelodau hyn o'r tîm sydd newydd eu hyfforddi wedi bod yn ymuno â'n Canolfannau Brechu Cymunedol, gan eu helpu i redeg yn fwy esmwyth, a brechu mwy o bobl. Yr wythnos hon mae 10 o staff brechu milwrol wedi ymuno â ni hefyd sydd wedi cael eu drafftio i ymuno â'n byddin ninnau yn CTM, gan atgyfnerthu ein brwydr i gael brechu pawb sy'n gymwys.

Rydym wedi derbyn llawer o negeseuon hyfryd ar y cyfryngau cymdeithasol ac mae ein staff wedi derbyn negeseuon o ddiolch personol hefyd gydag anrhegion a siocledi. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr fod y cyhoedd yn cydnabod ymroddiad ein holl staff a gwirfoddolwyr.

## CERDDED-I-MEWN I GAEL Y BRECHLYN

Mae gennym rai slotiau brechu ar ôl ar gyfer pobl sydd wedi colli eu hapwyntiad, sydd heb apwyntiad eisoes ar gyfer mis Rhagfyr neu sydd wedi cael apwyntiad ym mis Ionawr ond sydd am gael apwyntiad yn

gynt.  Mae slotiau brechu ym mhob un o'n Canolfannau Brechu Cymunedol gan gynnwys yn ein canolfan fwyaf newydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Os ydych yn bodloni'r meini prawf isod, gallwch gerdded i mewn yn ystod yr amseroedd sydd i'w gweld ar waelod y dudalen.

## Cerdded-i-mewn:

- Pob dos cyntaf 12+
- Pob ail ddos 18+ (Apwyntiad yn unig i'r rhai rhwng 12-17 oed)
- Pob trydydd dos i'r rhai gyda system imiwnedd gwan
- Pob person 16+ nad oedd wedi gallu cadw ei apwyntiad, pawb dderbyniodd lythyr ar ôl amser yr apwyntiad, pawb gafodd apwyntiad gyda'r nos oedd wedi'i ganslo, a phawb oedd wedi cael apwyntiad ym mis Ionawr ac a oedd am gael ynghynt.
- Myfyrwyr y Brifysgol yn dychwelyd adref ar gyfer y gwyliau.

**Sylwch:**

1. Os oes apwyntiad gyda chi ym mis Rhagfyr, gofynnwn i chi gadw'r apwyntiad hwnnw os yw'n bosibl.
2. Ni allwn roi eich brechlyn i chi neu eich dos atgyfnerthu nes bod yr amseroedd canlynol wedi mynd heibio.
    - Ail ddos - 8 wythnos ar ôl eich dos cyntaf
    - Trydydd dos - 8 wythnos ar ôl eich ail ddos
    - Dosau atgyfnerthu - 13 wythnos ar ôl ail ddos
    - Oedolion 18+ - 28 diwrnod ar ôl haint COVID 19
    - O dan 18 oed - 12 wythnos ar ôl haint COVID 19

Lleoliadau Canolfannau Brechu Cymunedol CTM:

- **Llantrisant** (Canolfan Hamdden Llantrisant, CF72 8DJ)
- **Pen-y-bont ar Ogwr** (Ravens Court, CF31 4AP)
- **Merthyr Tudful** (Canolfan Hamdden Merthyr Tudful, CF48 1UT)
- **Aberpennar** (Canolfan Fowlio Dan Do Cwm Cynon, CF45 4DA)
- **Rhondda** (Canolfan Chwaraeon Rhondda, CF41 7SY)
- **YSBYTY TYWYSOGES CYMRU, HEOL COETY, PEN-Y-BONT AR OGWR**

| Dyddiad | Amseroedd |
|---|---|
| 23.12.21 | 8am – 6pm |
| 24.12.21 | 8am-12 hanner dydd |
| 25.12.21 | Ar gau |
| 26.12.21 | Ar gau |
| 27.12.21 | 8am – 6pm |

| | |
|---|---|
| 28.12.21 | 8am – 6pm |
| 29.12.21 | 8am – 6pm |
| 30.12.21 | 8am – 6pm |
| 31.12.21 | 8am – 2pm |

## I gael rhagor o wybodaeth:

I gael rhagor o wybodaeth am ein Rhaglen Dosau Atgyfnerthu, edrychwch ar ein Cwestiynau Cyffredin: Cliciwch yma https://ctmuhb.nhs.wales/covid-19/covid-19-vaccine-information/new-december-covid-19-booster-faqs/

I gael rhagor o wybodaeth am frechlynnau ar gyfer pobl ifanc 12-15 oed a'n llinell gyngor arbennig iddyn nhw, edrychwch ar ein Cwestiynau Cyffredin: Cliciwch yma: https://ctmuhb.nhs.wales/covid-19/covid-19-vaccine-information/covid-19-vaccination-for-12-15-year-old/

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â diogelwch y brechlyn, ewch i weld cwestiynau cyffredin Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cliciwch yma https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/

Rydyn ni wedi sefydlu llinell gyngor arbennig ar gyfer y rhaglen frechu. Sylwch nad ydy'r tîm yn gallu trefnu apwyntiadau nac ateb cwestiynau clinigol.

Mae'r llinell ar agor 7 diwrnod yr wythnos rhwng 9am a 4.30pm.

Rydym ar gau **Dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan**

Y rhif yw **01685 726464**.

Mae cyfeiriad e-bost arbennig hefyd. **CTM.VaccinationEnquiries@wales.nhs.uk**